Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Dadansoddi Datganiadau Cyffredin yn Feirniadol Par: Cam-drin Domestig

Mai 2025



llyw.cymru

# Dadansoddi'n feirniadol Datganiadau Cyffredin

## Cam-drin Domestig

Gall deialog mewn perthynas â cham-drin domestig fod yn heriol ac, yn eithaf aml, bydd datganiadau problematig neu 'fythau' yn parhau. Ni all ymarferwyr Cafcass Cymru nac unrhyw system osgoi'r mythau cyffredin hyn, ond gallwn fynd ati i herio ein hunain ac eraill pan fyddwn yn sylwi arnynt, a'u heffaith niweidiol bosibl ar ddioddefwyr-oroeswyr.

Isod rydym wedi cyflwyno rhai datganiadau cyffredin sydd wedi cael eu dadansoddi'n feirniadol i herio canfyddiadau o gam-drin a chynnig safbwyntiau sy'n fwy ystyriol o drawma.

**"Mae hi'n ei ddewis ef dros ei phlant."**

**neu**


**"Nid yw'n amddiffyn ei phlentyn/plant rhag trais ei phartner/cyn-bartner."**

- Nid oes gan ddioddefwyr-oroeswyr rheolaeth drwy orfodaeth lawer o le i weithredu ac felly nid oes ganddynt lawer o ddewis ychwaith.
- Gall fod ofnau neu bryderon gwirioneddol y bydd y trais tuag atynt a/neu eu plant yn gwaethygu os byddant yn gwneud dewisiadau nad ydynt o blaid y cyflawnwr.
- Mae'n bosibl hefyd y bydd dibyniaeth economaidd sy'n cyfyngu ar eu cyfleoedd y tu allan i'r berthynas. Hyd yn oed pan na fydd dibyniaeth economaidd mwyach (h.y. efallai y bydd gan y dioddefwr-oroeswr ei ffynonellau incwm ei hun), gall camdriniaeth economaidd a chyfreithiol barhau i darfu ar fywydau oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.
- I rai, gall fod elfen gymdeithasol neu ddiwylliannol gryf sy'n eu hatal rhag gallu dewis gadael. Yn yr achosion hyn, gallai'r dioddefwr-oroeswr golli cymorth a chefnogaeth aelodau ehangach o'r teulu, y gymuned neu rwydweithiau, yn ogystal â'r partner/rhiant y plant. Gall cam-drin ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, fod yn ffactor risg o niwed arall, gan gynnwys:
  - Lladd ar sail 'anrhydedd',
  - trais corfforol arall (gan gynnwys trais rhywiol) ar sail 'anrhydedd',
  - bygythiadau i anfon y plant ymaith at deulu dramor,
  - priodas dan orfod,
  - priodas â phlentyn,
  - profi gwyryfdod,
  - anffurfio organau cenhedlu benywod.
- Gall rhai hefyd gredu y bydd y trawma a fydd ynghlwm â gadael, mynd i loches neu symud i ffwrdd ac ailddechrau yn achosi mwy o niwed emosiynol i'r plant neu ofni y byddant yn colli gwarchodaeth dros eu plant os byddant yn cymryd y camau hyn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-730-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cwestiynau Ymarfer

- Ydw i'n rhoi ystyriaeth lawn i'r peryglon posibl a'r rhwystrau ymarferol y gallai'r dioddefwr-oroeswr a'r plant eu hwynebu os byddant yn ceisio gadael?
- Ydw i wedi ystyried safbwynt y dioddefwr-oroeswr o ran diogelwch a beth yw'r opsiwn lleiaf niweidiol i'r unigolyn a'r plant, ym marn yr unigolyn?
- Sut y gallaf newid fy safbwynt o farnu i empathi a dealltwriaeth mewn perthynas â dewisiadau'r dioddefwr-oroeswr?
- Pa adnoddau neu wasanaethau ychwanegol y gallaf gysylltu'r dioddefwr-oroeswr â nhw i'w helpu i deimlo fel pe bai'n cael mwy o gymorth ac yn llai ynysig?
- Pe na bai'r cyflawnwr yn rhan o'r darlun, sut byddai'r person arall yn mynd ati i fagu plant?
- Pa gamau y mae'r cyflawnwr wedi'u cymryd i gydnabod a newid ei ffordd o ymddwyn?
- Pa fesurau amddiffynnol sy'n cael eu rhoi ar waith, o fewn y lle sydd ar gael i'r dioddefwr-oroeswr yng nghyd-destun y gamdriniaeth?
- Ym mha ffyrdd y mae gallu'r dioddefwr-oroeswr i fagu plant wedi cael ei danseilio neu ei atal gan weithredoedd neu ymddygiad y cyflawnwr?
- A yw'r dioddefwr-oroeswr yn cytuno mai'r mesurau amddiffynnol sydd orau yn ein barn ni (h.y. symud i ardal newydd, ymgysylltu â gwasanaethau statudol) yw'r rhai gorau mewn gwirionedd? A allai amharodrwydd yr unigolyn fod yn gysylltiedig â'r ofn cyfiawn o niwed pellach, mwy difrifol? Sut y gallwn fynd i'r afael â hyn?



| | |
|---|---|
| **"Mae gan y cwpl hanes o gam-drin domestig."** | • Mae canolbwyntio ar y berthynas yn hytrach na dewisiadau ac ymddygiadau'r rhieni yn tynnu ein sylw oddi wrth nodi'r gweithredoedd y mae'r cam-drin domestig yn deillio ohonynt, y risg i'r oedolion a'r plant, a phryderon diogelwch cyffredinol.<br>• Mae'r datganiad hwn yn niwtral (nid oes unrhyw un yn cael ei ddwyn i gyfrif) ac, ar ei ben ei hun, mae'n bosibl nad yw'n ddatganiad gwrthrychol sy'n seiliedig ar asesiad ac sy'n nodi pwy yw/oedd prif achoswr ac ysgogydd camweithrediad y teulu.<br>• Mae'n rhaid i ni hefyd nodi mewn achosion o gam-drin ar ôl gwahanu na ddylid ystyried unrhyw achosion o gam-drin yn ystod y berthynas fel achosion hanesyddol neu ar wahân ond, yn hytrach, fel parhad o batrwm o gam-drin yn unol â'n dealltwriaeth o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol. |

## Cwestiynau Ymarfer

- Sut y gallwch ddechrau mapio hanes y berthynas gan gyfeirio at ymddygiadau neu weithredoedd camdriniol?
- Beth yw'r patrymau cam-drin sy'n gysylltiedig â'r achos hwn?
- Pa ddatganiadau eraill y gallwn eu defnyddio er mwyn osgoi disgrifio cam-drin domestig fel rhywbeth ar y cyd neu niwtral?

**“Mae hi bob tro’n dewis yr un math o bartner.”**

- Mae achosion o fictimeiddio treisgar mynych yn risg sefydledig i bobl yn y DU[1]. Yn achos cam-drin domestig, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn destun fictimeiddio mynych[2] naill ai gan yr un partner neu sawl partner.
- Pan fyddwn yn llywio ein ffordd o feddwl drwy’r safbwynt bod rhywun yn ‘dewis’ y math hwn o bartner, rydym yn troi ein meddyliau yn awtomatig tuag at dybio bod yr unigolyn yn gwneud penderfyniad gweithredol i gael triniaeth o’r fath a byddwn yn syrthio i’r fagl o feio’r dioddefwr.
- Ni allwch ddewis cael eich cam-drin, ac nid yw pobl yn dechrau perthynas gan dybio y byddant yn cael eu cam-drin gan eu partner. Bydd cyflawnwyr cam-drin domestig yn adnabod nodweddion bregus ac yn camfanteisio arnynt er mwyn cael pŵer dros eu partner a rheoli’r unigolyn.

## Cwestiynau Ymarfer

- Sut y gallaf sicrhau bod gweithredoedd/ymddygiadau’r cyflawnwr wrth wraidd fy asesiad o’r achos hwn?
- Sut y gellir cefnogi’r dioddefwr-oroeswr i dorri’n rhydd o gylch cam-drin? Os nad fy rôl i yw darparu’r cymorth hwn, sut y gallaf weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a all ddarparu cymorth o’r fath?
- Sut y gallaf ddefnyddio dull croestoriadol i ystyried yr achos hwn? Pa ffactorau economaidd, cymdeithasol, hiliol, iechyd, diwylliannol, strwythurol neu sefydliadol all fod yn effeithio ar ddewisiadau bywyd y person hwn?

1 Improving victimisation estimates derived from the Crime Survey for England and Wales – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
2 Repeat Violent Victimisation: A Rapid Evidence Review (www.gov.scot)

| | |
|---|---|
| **"Nid oedd y plentyn/plant yn bresennol pan ddigwyddodd x y z."** | • Dull o ymdrin â cham-drin domestig a arweinir gan ddigwyddiadau yw hwn ac nid yw'n ystyried y gallai'r plentyn/plant fod yn byw mewn amgylcheddau lle mae rheolaeth a cham-drin yn realiti barhaus. Mae hyn hefyd yn berthnasol i achosion o gam-drin pan fydd rhieni wedi gwahanu.<br>• Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn cydnabod bod plant sy'n byw mewn amgylcheddau lle mae cam-drin domestig yn digwydd hefyd yn ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin.<br>• Gall cyflawnwyr ddefnyddio plant er mantais iddyn nhw eu hunain wrth geisio cadw rheolaeth; naill ai drwy eu niweidio'n uniongyrchol, i achosi niwed emosiynol pellach i'r rhiant arall, neu drwy ddefnyddio plant fel 'cynorthwywyr' wrth gam-drin.<br>• Mewn unedau teuluol â nifer o blant (boed yn fiolegol ai peidio), mae'n bosibl mai dim ond un neu rai o'r plant gaiff eu cam-drin yn uniongyrchol. Hyd yn oed mewn achosion pan fydd un plentyn neu fwy yn cael 'ffafriaeth' gan gyflawnwr, byddai'r plant hynny yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr-oroeswyr o hyd.[3]<br>• Gall ffafrio un plentyn dros rai eraill fod yn dacteg gamdriniol sy'n effeithio ar y teulu cyfan. Dylem hefyd sicrhau nad ydym yn cymharu pa blentyn/plant yr effeithir fwyaf arnynt; mae'r trawma sy'n gysylltiedig â cham-drin yn brofiad goddrychol, a dylem dybio y bydd amgylchedd sy'n anniogel i un plentyn yn anniogel i bob plentyn yn achos cam-drin domestig.<br>• Mae byw mewn amgylcheddau gormesol yn drawmatig. Bydd plant yn gweld ac yn teimlo canlyniadau digwyddiadau sylweddol o gam-drin o hyd, p'un a ydynt yn dioddef yn uniongyrchol ai peidio, gan gynnwys effeithiau cam-drin ar weithrediad a gallu magu plant eu rhiant sy'n amddiffyn.<br>• Mae'r datganiad hwn hefyd yn bwydo i mewn i fyth plentyn sy'n dyst i gam-drin domestig; mae plant yn ddioddefwyr-oroeswyr, yn ogystal â bod yn dystion posibl. |

## Cwestiynau Ymarfer

- Sut mae'r plentyn/plant yn disgrifio digwyddiadau? Sut mae'r plentyn/plant yn teimlo amdanynt neu'n ymateb iddynt?
- Sut mae'r plentyn/plant yn disgrifio eu rhieni fel unigolion?
- Sut mae'r plentyn/plant yn disgrifio amgylchedd y cartref a'u profiad o fyw yno?
- Pa gamau y mae'r rhiant sy'n amddiffyn yn eu cymryd i geisio amddiffyn y plentyn/plant rhag camdriniaeth, o fewn y lle sydd ar gael i weithredu mewn amgylchedd a allai fod yn gamdriniol?
- Sut mae'r rhiant/gofalwr sy'n cam-drin yn disgrifio effaith digwyddiadau treisgar ar y plentyn/plant? A yw'n cydnabod niwed ehangach posibl er nad y plentyn/plant yw'r targed uniongyrchol?
- Pa dystiolaeth sydd o effeithiau ecolegol cam-drin ar y plentyn/plant yn yr achos?

3 [When Coercive Control Continues to Harm Children: Post-Separation Fathering, Stalking and Domestic Violence – Katz – 2020 – Child Abuse Review – Wiley Online Library]

**“Pam mai dim ond ar adeg ymyriad gan y llys teulu y mae’r gamdriniaeth wedi cael ei datgelu?”**

**“Mae honiadau o gam-drin wedi cael eu gorliwio er mwyn rhwystro’r rhiant arall rhag bod yn rhan o fywyd y plentyn/plant.”**

- Mae’r datganiadau hyn yn llunio barn am gymhellion rhieni o ran datgelu achos o gam-drin domestig mewn lleoliad llys teulu.
- Mae’n rhaid i ni sicrhau bod unrhyw ddatganiad a wnawn yn seiliedig ar asesiad o’r ffeithiau sydd ar gael i ni a’r tebygolrwydd bod datganiadau o’r fath yn wir.
- Mae asesu’r tebygolrwydd bod achos o gam-drin wedi digwydd yn hanfodol er mwyn dadansoddi’r risg o niwed i’r plant.
- Mae gan oroeswyr cam-drin resymau niferus dros beidio â datgelu achos o gam-drin yn gynharach, a drafodir ym mhob un o’r canllawiau ymarfer.
- Gall cyflawnwyr hefyd ddatgelu eu bod nhw wedi dioddef achos o gam-drin, er mwyn rheoli’r naratif a gyflwynir i’r llys.
- Mewn achosion pan na fydd ymarferydd Cafcass Cymru yn sicr pwy yw’r cyflawnwr, dylid ymgymryd ag ymarfer mapio cyflawnwr Safe and Together. Dylech ymgymryd â’r ymarfer hwn gan ddefnyddio ffordd o feddwl agored, ymchwiliol heb feirniadu.
- Gallwn werthuso realiti ac effaith cam-drin er mwyn deall safbwyntiau’r dioddefwyr-oroeswyr drwy ystyried ein hasesiadau o safbwynt cam-drin domestig sy’n ystyriol o drawma. Mae cyflawnwyr a dioddefwyr-oroeswyr cam-drin a fydd yn dweud hefyd bod lefel y gamdriniaeth yn llai na’r lefel go iawn.
- Gall gweithwyr proffesiynol o bob sector golli, tanseilio difrifoldeb neu gamddeall achosion o gam-drin. Nid yw hyn yn golygu nad yw wedi digwydd neu nad yw wedi cael ei ddatgelu neu ei ddisgrifio cyn i achos llys teulu ddechrau.

## Cwestiynau Ymarfer

- Sut y gallaf sicrhau bod fy asesiad yn ddi-duedd?
- A ydw i’n ystyried rôl rhwystrau sefydliadol ym mhroses gwneud penderfyniadau’r dioddefwr?
- Sut y gallaf gydbwyso’r angen i amddiffyn plant â’r angen i gredu dioddefwyr-oroeswyr achosion o gam-drin a’u cefnogi?
- Pa gamau ychwanegol y gallaf eu cymryd i ddilysu’r honiadau o gam-drin heb ddiystyru profiadau’r dioddefwr-oroeswr?
- Pa ragfarnau allai fod gennyf sy’n peri i mi gwestiynu dilysrwydd yr honiadau o gam-drin?
- Pa ffactorau all fod wedi dylanwadu ar anallu rhywun i ddatgelu achos o gam-drin yn gynharach?